



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Aneurin Bevan  
University Health Board

## Gwybodaeth i Gleifion

### Bloc Guanethidin

### Uned Llawfeddygaeth Ddydd

Mae'r driniaeth hon wedi ei chynnig i chi fel rhan o'ch cynllun rheoli sydd wedi ei drafod a'i gytuno ar y cyd â'ch Ymgynghorydd Rheoli Poen. Mae'ch poen yn debygol o ymateb i driniaeth pigiad os yw'r boen yn ddifrifol ac bodoli mewn rhan benodol o'r corff. Nid yw poen sydd i'w deimlo ar draws sawl rhan o'r corff neu boen ysgafn yn ymateb i driniaeth pigiad.

Wrth ymdrin â phob achos o boen cronig, ein nod yw lleihau eich symptomau er mwyn i chi allu symud yn well, lleihau neu roi'r gorau i gymryd meddyginiaeth, cael rheolaeth yn ôl unwaith eto dros eich bywyd a gwella ansawdd eich bywyd. Caiff lleihau difrifoldeb symptomau o 30% ei ystyried yn llwyddiant o ran rheoli poen cronig. Anaml iawn y mae triniaethau lleddfau poen yn gwella pen cronig yn llwyr. Maent yn helpu i dorri cylch dieflig symptomau poen parhaus ond ni ellir rhagweld am ba hyd y bydd angen i'r driniaeth barhau. Caiff cyfnod o ddim hirach na 24 mis ei ystyried yn briodol ar gyfer triniaeth pigiad.

Mae'n bwysig cofio, hefyd, nad oes unrhyw driniaeth heb ei risgiau. Gyda hyn mewn golwg, ni fydd triniaeth pigiad yn cael ei roi dro ar ôl tro oherwydd gall yr anesthetig lleol a'r steroid achosi sgil effeithiau o gwmpas y man yr aiff y pigiad i mewn a phan fyddant yn cael eu hamsugno gan lif y gwaed. Gall rhai o'r sgil effeithiau rhain gynnwys imiwnedd is, eich gwneud yn fwy tebygol o ddal heintiau a achosir gan firysau a bacteria. Mae hyn yn berthnasol iawn ar hyn o bryd wrth ystyried y pandemig COVID-19.

Caiff risgiau penodol sy'n ymwneud â thriniaethau eu hegluro yn y daflen wybodaeth. Cymerwch amser i ystyried y wybodaeth a ddarperir isod ynglŷn â'r driniaeth ymyriadol hon os gwelwch yn dda.

## **Beth yw bloc Guanethidin?**

Mae'n dechneg lle maen nhw'n chwistrellu meddyginiaeth o'r enw guanethidin ac anaestheteg leol o'r enw prilocain ar ôl gosod rhwymyn tynhau ar eich braich neu eich coes. Mae'n helpu i leddfu poen ac yn gwella'r cylchrediad yn eich llaw neu eich coes. Fodd bynnag, mae'n bosibl na fydd y driniaeth yn gweithio i bob claf.

## **Sut mae guanethidin yn gweithio?**

Mae rhywfaint o'r poen yn ein corff yn digwydd oherwydd camweithrediad y system nerfol awtomatig/ sympathetig a pharasympathetig ac nid oes gennym unrhyw reolaeth drosto. Mae guanethidin yn helpu i olchi rhai o'r cemegolion allan o'r system nerfol sympathetig a gall hyn leddfu'r poen.

## **Beth sy'n digwydd ar y diwrnod?**

Byddwch chi'n derbyn manylion eich apwyntiad drwy'r post. Cofiwch barhau i gymryd eich meddyginiaethau arferol. Peidiwch â rhoi eli na rhwbiadau dros fan y driniaeth. Cofiwch ddod â rhestr o'ch meddyginiaethau gyda chi.

Pan fyddwch chi'n dod i mewn i'r Uned Llawfeddygaeth Ddydd, gofynnir i chi newid i ŵn ysbyty. Bydd nyrs yn profi eich bod yn iawn ar gyfer y driniaeth. Os bydd eich pwysau gwaed yn uchel, bydd yn rhaid gohirio eich triniaeth.

Bydd eich meddyg yn eich gweld, yn ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych ac wedyn yn gofyn i chi arwyddo eich ffurflen gydsynio.

Byddan nhw'n mynd â chi i'r theatr ac yn gofyn i chi orwedd ar droli. Byddan nhw'n gwirio eich pwysau gwaed a chyfradd curiadau eich calon ac yna'n gwneud hyn bob pum munud. Byddan nhw'n rhoi nodwydd fechan yng nghefn eich llaw ac un arall mewn gwythïen yn eich llaw/ troed boenus o dan anaestheteg leol.

Bydd eich braich/ coes yn cael ei chodi a rhwymyn tynhau'n cael ei roi arni. Bydd yn cael ei enchwythu uwch ben eich pwysau gwaed er mwyn selio'r man fydd yn cael ei drin. Dylech aros yn llonydd yn ystod y driniaeth hon. Bydd y cymysgedd guanethidin /prolocain yn cael ei chwistrellu'n araf tra byddwch chi'n gorwedd. Mae'n bosibl y byddwch chi'n teimlo rhyw bigo a llosgi wrth fan y driniaeth ond bydd yn lleddfu o fewn 1-2 funud. Bydd y llaw/ droed yn ymddangos yn frith. Bydd y

rhwymyn tynhau'n dal i gael ei enchwythu'n araf a bydd y llaw/ droed yn ymddangos yn goch.

Byddan nhw'n mynd â chi'n ôl i'r ward lle byddwch chi'n gorfod gorwedd am 30 munud arall. Byddan nhw'n gwirio eich pwysau gwaed a churiadau'r galon bob 5 munud. Byddan nhw'n tynnu'r nodwydd allan o'ch llaw/ troed pan fydd y cochni wedi diflannu'n llwyr.

Ni ddylech yrru ar ddiwrnod eich triniaeth ac mae'n bwysig bod perthynas neu ffrind yn mynd adref gyda chi.

### **Beth i'w ddisgwyl ar ôl y driniaeth?**

Cofiwch gymryd pethau'n ysgafn am ddiwrnod neu ddau ar ôl eich triniaeth.

Dylech barhau gyda'r feddyginiaeth/ drefn ymarfer yn ôl cyfarwyddiadau'r ymgynghorydd.

### **Beth yw'r sgil effeithiau/ cymhlethdodau?**

#### ***Cyffredin***

- Dolurus / cleisio wrth fan y pigiad.
- Poen cynyddol dros dro (hyd at 7 diwrnod) ar ôl y driniaeth.
- Trwyn llawn am hyd at 3 diwrnod
- Penysgafnder am hyd at 3 diwrnod

#### ***Anghyffredin***

- Haematoma (ceulad y gwaed)
- Haint wrth fan y pigiad
- Adwaith alergaidd
- Poen newydd
- Poen yn gwaethygu

#### ***Anghyffredin iawn***

- Confylsiynau (ffitiau)
- Ataliad y galon (y galon yn stopio)

### **Rhaid i chi ddweud wrthym os:**

- Gallwch chi fod yn feichiog
- Ydych chi'n cymryd warfarin/ clopidogrel
- Oes gennych chi alergedd i latex

- Ydy eich cyflwr meddygol wedi newid ers y tro diwethaf i chi weld yr ymgynghorydd
- Ydych chi'n dioddef gan epilepsi
- Ydych chi'n dioddef gan ddiabetes
- Oes gennych chi annwyd neu dymheredd.
- Ydych chi wedi bod mewn ysbyty'n ddiweddar
- Ydych chi'n defnyddio cadair olwyn ac efallai angen help i ddod allan ohoni
- Ydych chi'n fyddar/ neu'n drwm eich clyw
- Ydych chi'n rhannol ddall/ neu wedi eich cofrestru'n ddall
- Ydych chi angen cyfieithydd
- Ydych chi'n nerfus iawn am nodwyddau, ysbytai neu ymarferwyr meddygol

### **Bydd aelod o'ch tîm rheoli poen yn cysylltu â chi.**

Os bydd gennych unrhyw bryder pellach am y driniaeth hon, gallwch gysylltu â'r rhif priodol isod rhwng 9am a 5pm

### **Ysbyty Brenhinol Gwent**

**Ymgynghorwyr:** Dr. T.M. Ivanova-Stoilova a Dr. S. Wartan  
Rhif ffôn: **01633 - 234938**

### **Ysbyty Nevill Hall**

**Ymgynghorwyr:** Dr. S. Jeffs & Dr M. Joshi  
Rhif ffôn: 01873 - 732979